**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**

**Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015**

| Argymhelliad | Derbyn / Gwrthod ystyriaeth yn y dyfodol | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 1.** Bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r rhesymeg sy'n sail i'r rheoliadau cyllido myfyrwyr sy'n caniatáu i sefydliadau nad ydynt yn cael eu hariannu'n gyhoeddus gan CCAUC gael dynodiad awtomatig ar gyfer eu darpariaeth ran-amser ac ôl-raddedig, a beth yw manteision ac anfanteision y dull hwn. | **Derbyn** | Hyd nes i Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 gael ei chyflwyno, roedd rheoliadau cymorth i fyfyrwyr a wnaed dan adran 22 Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1988 yn rhoi dynodiad awtomatig i gyrsiau addysg uwch a ddarperid gan ddarparwyr addysg uwch a gâi eu hariannu'n gyhoeddus yng Nghymru. Roedd y system hon yn berthnasol hefyd i gyrsiau rhan-amser a chyrsiau ôl-raddedig. Bu'r polisi hwn ar waith ym mhedair gweinyddiaeth y DU am flynyddoedd lawer, a bu'n llwyddiant.<br><br>Nid prifysgolion yw'r unig ddarparwyr addysg uwch, ac mae defnyddio'r meini prawf 'a ariennir yn gyhoeddus' yn ei gwneud yn bosibl i addysg uwch gael ei darparu mewn rhannau eraill o'r sector addysg a ariennir yn gyhoeddus, yn arbennig felly colegau addysg bellach, gan ategu'r agenda ehangu mynediad (er, mae darpariaeth o'r fath yn gyfyngedig yng Nghymru).<br><br>Rhaid i'r sector addysg a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru fodloni rhai safonau. Yn ei adolygiad, nododd yr Athro Syr Ian Diamond y dylai cyllid gefnogi a gwella moddau astudio amrywiol, yn cynnwys dysgu llawn-amser, dysgu rhan-amser a dysgu o bell, ac y dylai sicrhau rhyddid i symud rhwng gwahanol sectorau addysg, a phwysleisiodd bwysigrwydd addysg uwch ran-amser ac ôl-raddedig.<br><br>Manteision y dull yw symlrwydd rheoleiddiol a gweithredol, gan ganiatáu i fyfyrwyr gael gafael ar gymorth ariannol ar gyfer astudio amrywiaeth ehangach o gyrsiau sy'n bodloni meini prawf yn ymwneud ag ansawdd a meini prawf ariannol. Mae'r dull presennol yn rhoi sicrwydd i fyfyrwyr fod y cyrsiau a'r darparwyr a ddewisir ganddynt yn cyrraedd safonau penodol, ac yn rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru fod arian cyhoeddus yn cael ei ddyrannu'n briodol. |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**

**Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015**

| **Argymhelliad** | **Derbyn / Gwrthod ystyriaeth yn y dyfodol** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
|---|---|---|
| | | Yr anfantais yw na fydd gan y Llywodraeth lwybr uniongyrchol at rai darpariaethau o reidrwydd, ac efallai na fydd y trefniadau rheoleiddio mor amlwg â'r rhai sy'n ddarostyngedig i reoleiddiwr neu amodau a thelerau cyllido. Fodd bynnag, dylid nodi bod gan Lywodraeth Cymru y pwerau i reoleiddio cyrsiau rhan-amser ac ôl-raddedig yn uniongyrchol pe bai o'r farn fod y risgiau'n drech na'r mesurau lliniaru sydd ar waith.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim. |
| **Argymhelliad 2.** Bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut y mae, (neu sut y byddai),<br>yn cadw goruchwyliaeth dros ddarpariaeth ran-amser ac ôl-raddedig a ddynodwyd yn awtomatig lle nad yw'r grant cylchol yn tarddu o CCAUC. | **Derbyn** | Caiff darparwyr yng Nghymru a chanddynt gynllun ffioedd a mynediad eu rheoleiddio gan CCAUC dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Caiff mwyafrif llethol y ddarpariaeth ôl-raddedig ei darparu gan ddarparwyr o'r fath, ac felly caiff y ddarpariaeth hon ei rheoleiddio'n briodol. Ochr yn ochr â'r Brifysgol Agored, mae'r darparwyr hyn yn gyfrifol am fwyafrif llethol y ddarpariaeth ran-amser hefyd. Caiff y Brifysgol Agored ei rheoleiddio yn rhinwedd ei grant cylchol gan CCAUC.<br><br>Y prif ddarparwr addysg uwch arall a ariennir yn gyhoeddus yw'r sector addysg bellach yng Nghymru. Mae darpariaeth y sector hwn yn fychan o'i gymharu â darpariaeth y sector prifysgolion yng Nghymru ac mae'n ddarostyngedig i reoleiddio priodol ac effeithiol (yn cynnwys dau goleg sydd â chynlluniau ffioedd a mynediad). Mae unrhyw ddarpariaeth ran-amser ac ôl-raddedig arall a gaiff ddynodiad awtomatig yn ymylol, a chaiff ei rheoleiddio gan fesurau rheoli sy'n berthnasol i'r corff arbennig hwnnw a ariennir yn gyhoeddus.<br><br>Er nad oes gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dros oruchwylio darparwyr y tu allan i Gymru sydd â chyrsiau wedi'u dynodi'n awtomatig, mae'r darparwyr hyn yn ddarostyngedig i'r trefniadauau rheoleiddio ac arolygu ansawdd sy'n berthnasol i'r |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**

**Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015**

| Argymhelliad | Derbyn / Gwrthod ystyriaeth yn y dyfodol | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| | | wlad gartref y maent wedi'u lleoli'n bennaf ynddi. Mae Llywodraeth Cymru yn hyderus, felly, fod darparwyr o'r fath yn cael eu rheoleiddio'n briodol a bod trefniadau goruchwylio boddhaol ar waith.<br><br>Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd cyrff ariannu Lloegr a Gogledd Iwerddon fodel gweithredu diwygiedig ar gyfer asesu ansawdd, i'w roi ar waith o 2016/17 ymlaen. Yn sail i'r model hwn ceid cyfres o ofynion rheoleiddio sylfaenol, yn cynnwys pwyntiau cyfeirio allanol a oedd eisoes yn bodoli yn y dirwedd addysg uwch. Lluniwyd y gofynion er mwyn sicrhau bod modd i bob darparwr sy'n gweithredu yn y system addysg uwch allu cyflwyno profiad academaidd o ansawdd uchel i fyfyrwyr, ac er mwyn diogelu safonau graddau a buddiannau myfyrwyr yn fwy cyffredinol.<br><br>Mae'r gofynion rheoleiddio sylfaenol, a nodir isod, yn rhan greiddiol o'r dull o asesu ansawdd addysg uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon:<br><br>• y fframweithiau ar gyfer cymwysterau addysg uwch, fel y'u nodir yng Nghod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch;<br>• disgwyliadau Cod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch;<br>• y cod llywodraethu perthnasol;<br>• rhwymedigaethau perthnasol y darparwyr dan gyfraith defnyddwyr;<br>• y fframwaith arferion da perthnasol ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd;<br>• gofynion y corff ariannu perthnasol o ran cynaliadwyedd ariannol, rheoli a llywodraethu, a chenhadaeth a strategaeth ar gyfer darparu addysg uwch.<br><br>Er bod cyfres wahanol o ofynion rheoleiddio'n berthnasol ar waith yn yr Alban (dan y Further and Higher Education (Scotland) Act 2005), mae'r pedair gwlad yn cytuno ar |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**

**Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015**

| **Argymhelliad** | **Derbyn / Gwrthod ystyriaeth yn y dyfodol** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
|---|---|---|
| | | yr egwyddorion craidd a geir yn y gofynion. Maent yn cytuno hefyd ar y canlynol: bod gan fyfyrwyr yr hawl i brofiad academaidd o ansawdd uchel; y dylid amddiffyn buddiannau myfyrwyr; ac y dylai safonau graddau fod yn gymaradwy ar draws y DU. Bydd y llinell sylfaen yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn briodol mewn ymateb i ddatblygiadau yng ngwledydd gwahanol y DU.<br><br>Gan edrych tua'r dyfodol, bydd y Bil sydd ar ddod yn cyflwyno dull mwy cyson o reoleiddio darparwyr addysg uwch Cymru, y caiff eu cyrsiau eu dynodi'n awtomatig neu fesul achos ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cynnwys proses reoleiddio gliriach ar gyfer darparwyr Cymru lle caiff cyrsiau rhan-amser neu ôl-raddedig yn unig eu dynodi, nad ydynt yn cael unrhyw grant.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim. |
| **Argymhelliad 3.** Bod Llywodraeth Cymru yn darparu cofrestr o'r holl gyrsiau sy'n berthnasol i argymhelliad 2, gyda phob cofnod cwrs yn nodi'r trefniadau sicrhau ansawdd sy'n berthnasol a'r corff sy'n atebol am oruchwyliaeth. Dylai'r gofrestr hon hefyd gynnwys manylion yr holl | **Derbyn** | Mewn gwirionedd, mae hyn ar waith yn barod. Ar ei wefan mae gan y Student Loans Company (SLC) gronfa ddata o gyrsiau a ddynodwyd yn benodol, sydd ar gael i bawb. Mae'r gronfa ddata'n cynnwys manylion am gyrsiau a ddynodwyd yn benodol ar gyfer Cymru (a mannau eraill) a'r cyrff dyfarnu perthnasol. Caiff y manylion eu diweddaru'n rheolaidd pan gaiff cyrsiau eu dynodi gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru, ac mae CCAUC yn cydgysylltu â'r SLC i sicrhau bod y rhestr o gyrsiau'n gyflawn ac yn gywir. Nid yw'r gronfa ddata'n mynd ati'n benodol i sicrhau ansawdd y trefniadau ar gyfer pob cwrs. Mae sicrhau ansawdd yn un o'r tri maen prawf y mae'n rhaid i ddarparwyr eu bodloni er mwyn i'w cyrsiau gael eu dynodi'n benodol ac er mwyn i'r cwrs ymddangos yn y gronfa ddata.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim. |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**

**Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015**

| Argymhelliad | Derbyn / Gwrthod ystyriaeth yn y dyfodol | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| gyrsiau a ddynodwyd yn benodol, dylid ei rhoi ar-lein o fewn 90 diwrnod i gyhoeddi'r adroddiad hwn, a dylai gael ei diweddaru'n rheolaidd. | | |
| **Argymhelliad 4.** Bod Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i hymateb i'r adroddiad hwn, yn darparu manylion unrhyw achos lle mae Gweinidogion Cymru wedi dynodi cwrs addysg uwch yn unigol, yn groes i argymhelliad CCAUC. Dylai'r cyfiawnhad dros unrhyw benderfyniadau o'r fath gael ei nodi yn yr ymateb hefyd. | **Derbyn** | Mae un enghraifft o'r fath wedi bod. Argymhellodd CCAUC na ddylid dynodi cyrsiau a gâi eu cynnig gan Kaplan Open Learning, gan nad oedd y darparwr wedi cyflwyno digon o dystiolaeth ynghylch cyfrannu at fudd y cyhoedd.<br><br>Er bod y Gweinidog yn cydnabod nad oedd Kaplan wedi ymdrin â'r maes hwn yn briodol yn ei gais, penderfynwyd y byddai'n amhriodol gwrthod dynodi ei gyrsiau ar sail maen prawf budd y cyhoedd yn unig, o gofio bod KAPLAN yn ddarparwr dysgu o bell sy'n cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau rhan-amser ac yn sefydliad sy'n gefnogol i'r agenda ehangu mynediad.<br><br>Cymeradwywyd y dynodiad ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20, ar yr amod y byddai'r wybodaeth y gofynnodd CCAUC amdani'n cael ei chyflwyno er mwyn sicrhau dynodiad ar gyfer blynyddoedd i ddod.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim. |
| **Argymhelliad 5.** Bod Llywodraeth Cymru yn myfyrio ynghylch y gwersi o natur gyfarwyddol a | **Derbyn** | Bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei drafftio mewn modd a fydd yn galluogi dull hyblyg, cydlynol a hirdymor o reoleiddio a goruchwylio detholiad amrywiol o ddarparwyr addysg drydyddol. |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**

**Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015**

| Argymhelliad | Derbyn / Gwrthod ystyriaeth yn y dyfodol | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| darniog y fframwaith rheoleiddio a grëwyd gan Ddeddf 2015 ac yn sicrhau bod y bil addysg drydyddol arfaethedig yn creu system ôl-16 gydlynol ac integredig. Dylai'r bil hwn gael ei ddrafftio i greu fframwaith deddfwriaethol sy'n ddigon hyblyg i ymdopi â newidiadau annisgwyl a allai ddigwydd ymhen blynyddoedd neu ddegawdau yn y dyfodol. | | **Goblygiadau Ariannol:** Dim. Fodd bynnag, bydd unrhyw gostau'n ymwneud â datblygu'r Bil yn cael eu talu o gyllidebau presennol, neu bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol neu gyllidebau DRC. |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**

**Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015**

| Argymhelliad | Derbyn / Gwrthod ystyriaeth yn y dyfodol | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 6.** Bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i CCAUC rannu unrhyw ganfyddiadau allweddol neu gamau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad o lywodraethu yn y sector sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Gillian Camm ar ran darparwyr. | **Derbyn** | Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adolygiad annibynnol a gynhelir ar hyn o bryd gan Gillian Camm, ac mae'n awyddus i weld canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad. Mae'n adolygiad pwysig, ac mae'n braf gweld bod CCAUC a'n Prifysgolion yn achub y blaen ar ddiwygio yn y maes hwn.<br><br>Cytunwyd y bydd copi o'r adroddiad yn cael ei rannu gyda Llywodraeth Cymru cyn iddo gael ei gyhoeddi. Byddwn yn trafod canfyddiadau'r adroddiad gyda CCAUC, gan sicrhau y bydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer cynulleidfa ehangach.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim. |
| **Argymhelliad 7.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau, yn amodol ar fesurau diogelu, atebolrwydd ac | **Derbyn** | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno fod yn rhaid i'r Comisiwn, o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth, allu datblygu ei ddull rheoleiddio ac ymyrryd ei hun mewn perthynas â sector amrywiol a dynamig, Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd y Comisiwn yn gweithredu dull adeiladol o ymgysylltu â darparwyr a rheoleiddio darparwyr, yn hytrach na dull cosbedigol. |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**

**Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015**

| **Argymhelliad** | **Derbyn / Gwrthod ystyriaeth yn y dyfodol** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
|---|---|---|
| ymgynghori, bod gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn") y gallu i ddychmygu sefydlu'r pwerau, ymyriadau, cymhellion a sancsiynau sy'n ofynnol yn ei dyb ef ar gyfer rheoleiddio effeithiol ar sector addysg drydyddol amrywiol a deinamig a fydd yn esblygu dros amser mewn ffyrdd annisgwyl. Yn gryno, rhaid caniatáu i'r Comisiwn greu'r hyn y mae CCAUC yn ei alw'n "beirianwaith rheoleiddio". | | Fodd bynnag, er mwyn i fframwaith rheoleiddio fod yn gyfreithiol effeithiol, bydd angen pennu rhai o bwerau rheoleiddio ac ymyrryd y Comisiwn mewn deddfwriaeth. Serch hynny, ni fydd y pwerau a bennir yn cyfateb i holl bwerau'r "peirianwaith rheoleiddio" a fydd ar gael i'r Comisiwn o reidrwydd, ac fe fydd digon o gyfle i'r corff newydd ddatblygu ei ddull ei hun, fel sy'n gweddu i'r sector y bydd yn ei oruchwylio.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Fodd bynnag, bydd unrhyw gostau'n ymwneud â datblygu'r Bil yn cael eu talu o gyllidebau presennol, neu bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol neu gyllidebau DRC. |
| **Argymhelliad 8.** Bod y bil addysg drydyddol yn caniatáu i'r Comisiwn bennu'r amodau ar gyfer llywodraethu da ac nad yw'n rhwystro ei allu i ymyrryd mor gynnar â phosibl mewn achosion | **Derbyn** | Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn bennu disgwyliadau rheoleiddio clir ar gyfer llywodraethu da, ac yn ei alluogi i gymryd camau rheoleiddio mewn achosion tybiedig o lywodraethu gwael neu aneffeithiol.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Fodd bynnag, bydd unrhyw gostau'n ymwneud â datblygu'r Bil yn cael eu talu o gyllidebau presennol, neu bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol neu gyllidebau DRC. |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**

**Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015**

| **Argymhelliad** | **Derbyn / Gwrthod ystyriaeth yn y dyfodol** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
| --- | --- | --- |
| tybiedig o lywodraethu gwael neu aneffeithiol. | | |
| **Argymhelliad 9.** Bod CCAUC yn darparu copi o unrhyw werthusiadau o gynlluniau ffioedd a mynediad y mae wedi'u cynnal hyd yma. | | Argymhelliad ar gyfer CCAUC yw hwn.<br><br>Mae Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol cyntaf CCAUC 2017/18 wedi'i roi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion am y modd y mae'r Cyngor wedi arfer ei swyddogaethau deddfwriaethol yn y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2018, yn cynnwys asesu cynlluniau ffioedd a mynediad. Mae'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r gwerthusiadau a gynhaliodd CCAUC o gynlluniau.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim. |
| **Argymhelliad 10.** Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CCAUC a rhanddeiliaid eraill tuag at y nod o adnabod sut y gellir diwygio'r is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf 2015 mewn perthynas â chynlluniau ffioedd a mynediad er mwyn:<br>• lleihau eu baich gweinyddol cyn | **Derbyn** | Nodwyd sylwadau'r Pwyllgor, a chyda CCAUC a rhanddeiliaid eraill byddwn yn ystyried a oes cyfle o fewn y ddeddfwriaeth bresennol i symleiddio'r broses ar gyfer sefydliadau a gwella effeithiolrwydd cynlluniau ffioedd a mynediad.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim. |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**

**Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015**

| **Argymhelliad** | **Derbyn / Gwrthod ystyriaeth yn y dyfodol** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
|---|---|---|
| belled ag y bo modd;<br>• cryfhau eu heffeithiolrwydd. | | |
| **Argymhelliad 11.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y bil addysg drydyddol newydd yn galluogi'r Comisiwn i osod amgylchedd rheoleiddio ac ariannu lle mae darparwyr yn cael eu cymell i fabwysiadu canlyniadau'n ddi-dor yn eu strategaethau eu hunain, gan felly sicrhau bod cyrff llywodraethu a'u darparwyr wedi'u halinio'n llwyr â hwy. | **Derbyn mewn egwyddor** | Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd swyddogaethau rheoleiddio ac ariannu'r Comisiwn yn cymell darparwyr i alinio'u blaenoriaethau strategol eu hunain â rhai'r Comisiwn, a fydd yn eu tro'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion pobl Cymru a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei gydbwyso â'r angen i ddarparwyr gynnal eu hymreolaeth a'u ffocws strategol arbennig eu hunain.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Fodd bynnag, bydd unrhyw gostau'n ymwneud â datblygu'r Bil yn cael eu talu o gyllidebau presennol, neu bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol neu gyllidebau DRC. |
| **Argymhelliad 12.** Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio ei pholisi dynodi cyrsiau penodol fel ei bod yn ystyried cysyniad ehangach a mwy rhesymol | **Derbyn mewn egwyddor** | Credwn ein bod wedi rhoi proses a meini prawf cadarn ar waith ar gyfer dynodi cyrsiau penodol. Caiff y rhain eu nodi yn nogfen bolisi Llywodraeth Cymru (https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/ymarferwyr/gwybodaeth-polisi/cyrsiau-dynodedig.aspx) ac yng nghanllawiau CCAUC i ddarparwyr. Rhaid i ddarparwyr ddangos eu bod yn bodloni'r meini prawf canlynol er mwyn i'w cyrsiau gael eu dynodi'n benodol: |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**

**Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015**

| **Argymhelliad** | **Derbyn / Gwrthod ystyriaeth yn y dyfodol** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
|---|---|---|
| o fuddiannau myfyrwyr na'r model "trothwy" cyfredol o ansawdd cyrsiau, cynaliadwyedd ariannol a "budd y cyhoedd" (a ddiffinnir yn ymarferol yng nghanllawiau CCAUC fel ehangu mynediad). | | • bod y cwrs wedi'i ddilysu gan gorff priodol;<br>• bod y ddarpariaeth a gynigir gan y darparwr o ansawdd digonol;<br>• bod y darparwr yn ariannol hyfyw;<br>• bod y darparwr yn gwneud cyfraniad sylweddol a pharhaus at fudd y cyhoedd mewn perthynas ag addysg.<br><br>Rhaid i gwrs fodloni'r meini prawf eraill mewn perthynas â dynodi cyn y bydd unrhyw dystiolaeth yn ymwneud â chyfraniad sylweddol a pharhaus at fudd y cyhoedd yn cael ei hystyried. Credwn fod yna werth mewn sicrhau bod darparwyr yn bodloni'r trothwyon hyn fel amod ar ddynodi eu cyrsiau, gan ei fod yn sicrhau lefel gyffredin o sicrwydd, ni waeth pa fath o ddarparwr ydyw neu natur y cwrs.<br><br>Bydd y Bil yn cyflwyno proses reoleiddio fwy ffurfioledig ar gyfer darparwyr y caiff eu cyrsiau eu dynodi'n benodol ar hyn o bryd, i'w gweinyddu gan y Comisiwn newydd. Bydd hyn yn arwain at allu goruchwylio amrywiaeth ehangach o bryderon rheoleiddio, yn enwedig o ran profiad myfyrwyr, gan sicrhau mwy o gysondeb mewn disgwyliadau rheoleiddio rhwng gwahanol fathau o ddarparwyr.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim. |
| **Argymhelliad 13.** Bod Llywodraeth Cymru, yn y Bil addysg drydyddol, yn newid y pwyslais o reoleiddio ar sail faint o | **Derbyn** | Bydd y Bil yn sicrhau bod trothwy cyffredin ar gyfer amodau rheoleiddio yn cael ei roi ar waith mewn perthynas â'r holl ddarparwyr addysg uwch y caiff eu cyrsiau eu dynodi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn sicrhau mesurau diogelu priodol a chyson ar gyfer dysgwyr, yn enwedig o ran llais dysgwyr, amddiffyniadau, a mynediad at gynllun cwyno priodol. |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**

**Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015**

| Argymhelliad | Derbyn / Gwrthod ystyriaeth yn y dyfodol | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| arian cyhoeddus sydd yn y fantol, i fwy o ffocws ar reoleiddio yn seiliedig ar ddealltwriaeth resymol, gynhwysol a pherthnasol o fuddiannau myfyrwyr, gan sicrhau bod y Bil yn eu cefnogi ac yn eu diogelu. Dylai hyn ei gwneud yn bosibl i unrhyw ddarparwr ôl-16 a reoleiddir allu bodloni disgwyliadau rhesymol myfyrwyr. | | **Goblygiadau Ariannol:** Dim. Fodd bynnag, bydd unrhyw gostau'n ymwneud â datblygu'r Bil yn cael eu talu o gyllidebau presennol, neu bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol neu gyllidebau DRC. |
| **Argymhelliad 14.** Bod Llywodraeth Cymru, drwy'r bil addysg drydyddol, yn sicrhau bod mecanweithiau llais dysgwyr addas yn cael eu sefydlu a'u cynnal gan yr holl ddarparwyr a reoleiddir gan y Comisiwn, a bod yn rhaid i'r Comisiwn ei hun roi sylw dyledus i lais myfyrwyr. Bydd hyn yn | **Derbyn** | Bydd y Bil yn rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i ddatblygu, ymgynghori ynghylch a chyhoeddi Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, sef cod yn ymwneud â sut y dylid ymgysylltu â dysgwyr a'u cynrychioli o fewn darparwyr addysg drydyddol, yn ogystal â monitro effeithiolrwydd y Cod fel rhan o'r broses adrodd flynyddol. Ymhellach, bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau'n galluogi cynrychiolaeth briodol ar gyfer buddiannau myfyrwyr o fewn y Comisiwn ei hun.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Fodd bynnag, bydd unrhyw gostau'n ymwneud â datblygu'r Bil yn cael eu talu o gyllidebau presennol, neu bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol neu gyllidebau DRC. |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**

**Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015**

| Argymhelliad | Derbyn / Gwrthod ystyriaeth yn y dyfodol | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| helpu i sicrhau bod yr hyn sy'n gyfystyr â buddiannau myfyrwyr yn gallu esblygu dros amser. | | |
| **Argymhelliad 15.** Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi bil addysg drydyddol drafft i alluogi rhanddeiliaid i ymgysylltu â manylion y ddeddfwriaeth arfaethedig. | **Gwrthod** | Nid oes digon o amser i gyhoeddi Bil drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, craffu llawn gan y Cynulliad cyn y broses ddeddfu, a chyflwyno'r Bil hwnnw gan neilltuo amser priodol ar gyfer pob un o gamau'r Cynulliad cyn ei ddiddymu yn 2021. Fodd bynnag, byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch y darpariaethau a fydd yn effeithio'n fwyaf uniongyrchol arnynt, a bydd eu sylwadau'n cael eu hystyried. Bydd y Bil yn mynd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer craffu, a'r adeg honno byddwn yn annog rhanddeiliaid i gymryd rhan yn y broses graffu, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor a'r rhanddeiliaid er mwyn sicrhau y bydd y bil terfynol yn adlewyrchu anghenion Cymru.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Fodd bynnag, bydd unrhyw gostau'n ymwneud â datblygu'r Bil yn cael eu talu o gyllidebau presennol, neu bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol neu gyllidebau DRC. |
| **Argymhelliad 16.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n bwriadu sicrhau parhad busnes o ran swyddogaethau beunyddiol hanfodol y cyrff rheoleiddio ac ariannu cyfredol (megis gwneud | **Derbyn** | Er mwyn rhoi sicrwydd i'r sector AHO ar draws Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi cynlluniau ar waith i sicrhau cyfnod pontio didrafferth o ran swyddogaethau beunyddiol hanfodol y cyrff rheoleiddio ac ariannu cyfredol.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim.<br>Mae adroddiadau diwydrwydd dyladwy wedi'u comisiynu a'u datblygu er mwyn sicrhau bod contractau hollbwysig y mae angen parhau â hwy wedi'u pennu a bod |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**

**Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015**

| **Argymhelliad** | **Derbyn / Gwrthod ystyriaeth yn y dyfodol** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
|---|---|---|
| taliadau cyllid rheolaidd arferol i ddarparwyr) yn ystod y cyfnod pontio i'r Comisiwn newydd. | | camau wedi'u cymryd i sicrhau y bydd y taliadau hyn yn parhau yn ystod y cyfnod pontio i'r Comisiwn newydd.<br><br>Mae trafodaethau'n ymwneud â throsglwyddo eiddo, hawliau ac atebolrwydd o CCAUC a Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn yn parhau.<br><br>Mae sicrhau y bydd cynlluniau addas i'r diben ar waith ar gyfer pontio'n ddidrafferth yn rhan o brotocolau rheoli rhaglenni Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys rheoli a lliniaru risgiau, pennu cerrig milltir a sicrwydd busnes. Caiff y broses hon ei goruchwylio gan yr Uwch-berchennog Cyfrifol ar gyfer rhaglen y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, sy'n uwch-aelod o staff yn Llywodraeth Cymru.<br><br>Bydd y trefniadau pontio'n cael eu pennu a'u cyfleu i'r cyrff rheoleiddio ac ariannu presennol. |
| **Argymhelliad 17.** Bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut y mae'n bwriadu sicrhau nad yw'r atgofion corfforaethol yn CCAUC a Llywodraeth Cymru yn cael eu colli wrth bontio i'r Comisiwn newydd. | **Derbyn** | Mae Deddf Llywodraeth Cymru yn cael ei diwygio er mwyn i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil allu disodli CCAUC. Bydd gweithgor TG a chofnodion yn cael ei ffurfio er mwyn sicrhau y bydd systemau a chofnodion Llywodraeth Cymru a CCAUC yn cael eu trosglwyddo'n ddidrafferth, a bydd yn cynnwys trafodaethau gyda'r Archifau Gwladol. Bydd gwaith pellach yn cynnwys cytundeb gorchymyn pontio, ar gyfer trosglwyddo'r holl gofnodion o CCAUC (gweler yr ymateb i argymhelliad 18 i gael gwybodaeth am y staff).<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Fodd bynnag, bydd unrhyw gostau'n ymwneud â datblygu'r Bil yn cael eu talu o gyllidebau presennol, neu bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol neu gyllidebau DRC. |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**

**Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015**

| Argymhelliad | Derbyn / Gwrthod ystyriaeth yn y dyfodol | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 18.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y bil addysg drydyddol yn darparu ar gyfer trefniadau pontio addas a bod Comisiwn cysgodol yn cael ei sefydlu cyn gynted ag sy'n ymarferol i helpu i ddarparu ar gyfer pontio'n ddidrafferth i'r corff newydd. | **Derbyn** | Mae Bwrdd Rhaglen a Bwrdd Prosiect Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol Llywodraeth Cymru wedi drafftio a chytuno ar gynllun pontio pedair blynedd. Mae'r cynllun yn nodi'r trefniadau angenrheidiol i drosglwyddo staff i'r corff newydd yn ogystal â phenodiadau cynnar Cadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, fel y gellir bwrw ymlaen â'r cynlluniau a'r strategaethau sy'n angenrheidiol ar gyfer y Comisiwn newydd. Mae'r cynllun yn cynnwys penodiad cynnar uwch-dîm hefyd i gynorthwyo gyda'r gwaith o bontio i'r Comisiwn newydd, ynghyd â'r amserlenni allweddol ar gyfer penodi bwrdd llawn ar gyfer y Comisiwn. Wrth ddatblygu'r cynllun, ceisiodd yr adran Adnoddau Dynol a Thîm y Bil sicrhau bod y gweithgareddau pontio a'r amserlenni'n realistig a'u bod wedi'u nodi'n glir yn y Bil.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Fodd bynnag, bydd unrhyw gostau'n ymwneud â datblygu'r Bil yn cael eu talu o gyllidebau presennol, neu bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol neu gyllidebau DRC. |
| **Argymhelliad 19.** Bod Llywodraeth Cymru yn darparu copïau o werthusiadau'r flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn yr ymrwymodd iddynt ym Memorandwm Esboniadol Deddf 2015. Os na chynhaliwyd yr adolygiadau hyn, dylid | **Gwrthod** | Mae'r gwaith ehangach ar ddiwygio AHO bellach yn drech na'r angen am werthusiad penodol o Ddeddf 2015. Wrth baratoi'r Bil mae swyddogion wedi ystyried rhinweddau Deddf 2015, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y cyfarwyddiadau ar gyfer y Bil drafft a gyhoeddir yn y Gwanwyn.<br><br>Fodd bynnag, rydym wedi cael gwybodaeth am y costau o symud i'r system reoleiddio newydd yn 2015, a gofynnwyd i CCAUC gynnal adolygiad o'r costau o symud i'r system reoleiddio addysg uwch newydd. Cyflwynodd CCAUC adroddiad i'r Cyngor yn sôn am y costau o baratoi ar gyfer y symud, y costau o ddatblygu a |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**

**Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015**

| Argymhelliad | Derbyn / Gwrthod ystyriaeth yn y dyfodol | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| darparu esboniad o'r rhesymau dros hynny. | | gweithredu eu systemau a'u prosesau newydd, a'r costau a ddaeth i ran y Cyngor yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ar ôl rhoi'r Ddeddf ar waith yn llawn.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Fodd bynnag, bydd unrhyw gostau'n ymwneud â datblygu'r Bil yn cael eu talu o gyllidebau presennol, neu bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol neu gyllidebau DRC. |